Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

cylchlythyr

Gaeaf 2009-10

Dadansoddi a Hysbysu

Asesu ecosystemau; canfod achosion ac effeithiau llygredd

Prif faterion yn ystod y tri mis diwethaf:

- Rhwystrau llyswennod
- Adolygu'r rhaglen arolygu
- Adolygiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD)
- Ymweliad Prifysgol Bangor

Rhwystrau llyswennod
Yn ystod 2010 buom yn gweithredu Cynlluniau Rheoli Llyswennod (CRhLl) ledled gogledd Cymru trwy asesu faint o rwystrau sydd i ymfudiad llyswennod. Ar hyn y bryd rydym yn cydweithio â'n Tîm Hydrometreg ni, Y GFGA a Dŵr Cymru er mwyn gwella mynediad at nifer o ddyfroedd gogledd Cymru.

Adolygu'r rhaglen arolygu
Buom yn gweithio â'r brif swyddfa er mwyn creu rhaglen arolygu sy'n cyflawni anghenion pawb sydd â rhan ynddi. Rhydd y rhaglen newydd well amgyffrediad a gwell ddealltwriaeth inni o stociau pysgod ledled gogledd Cymru. Fe'i gweithredir o'r tymor hwn ymlaen.

Prifysgol Bangor yn ymweld â chynefinoedd

Rhwystr cronfa Alwen

Adolygiad CFfD
Rydym wrthi'n edrych ar feysydd lle bydd angen rhagor o ymchwil er mwyn deall y rheswm am fethiannau CFfD. Cynhelir nifer o arolygon ychwanegol yn 2010 ar Ddyfrdwy a Chonwy er mwyn ymchwilio i'r rheswm am fethiannau'r dalgylchoedd hyn.

Ymweliad Prifysgol Bangor
Aed â myfyrwyr o Brifysgol Bangor o gwmpas y gogledd er mwyn edrych ar nifer o gynefinoedd, mannau silio a materion lleol. Hyn er mwyn dangos y gwaith a gyflawna Asiantaeth yr Amgylchedd ledled yr ardal, a phosibilrwydd canlyn gyrfa yn yr asiantaeth. Dyma'r ail flwyddyn y gwnaed hyn, gan barhau â'n perthynas agos ni â Phrifysgol Bangor.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw	Iwan Thomas	**Teitl swydd**	Arweinydd Tîm Asesu Ecolegol
Ffon	01248 484010	**E-bost**	Iwan.thomas@environment-agency.gov.uk

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

cylchlythyr

Gaeaf 2009-10

Troseddu Amgylcheddol

Lleihau troseddu pysgodfeydd a gwastraff yng Ngogledd Cymru: dyna'r nod.

Prif bynciau'r tri mis diwethaf:

- **Troseddu yng ngogledd Cymru**
- **Cydymffurfio â gofynion trwyddedu genweiriau**

Troseddu yng ngogledd Cymru
Fis Rhagfyr gorchmynnwyd i ddau ddyn o Gaernarfon dalu rhagor na £160 mewn costau yn Llys Ynadon Pwllheli wedi eu dal yn rhwydo eogiaid. Yn dilyn cyrch cadw golwg cudd yng Nghricieth, atafaelodd swyddogion Troseddu Amgylcheddol rwyd Stephen Evans o Gaernarfon.

Yn Rhagfyr hefyd daliwyd dyn yn potsio â lamp a bachyn yn un o ragnentydd Dyfrdwy. Daliasom chwe deiliad trwydded hefyd, wrth iddynt ddefnyddio technegau anghyfreithlon i hel cocos Aber Dyfrdwy.

Rhwydi a atafaelwyd gan Swyddogion yr Asiantaeth

Swyddog AA ar batrôl arferol

Cadw golwg ar drwyddedau genwair
Eleni gofynasom am weld trwyddedau 2,680 o enweirwyr, a rhoddasom wybod am 94 genweiriwr yn pysgota heb drwydded: sef cyfradd osgoi o 4%. Rydym wedi ymweld â 24 clwb genweirio hefyd, gan drafod swyddogaeth y tîm a sut y gallwn weithio'n well â'n gilydd er mwyn mynd i'r afael â throseddu ym mhysgodfeydd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw	Jason Westerberg-Liptrot	**Swydd**	Arweinydd Tîm
Ffon	01248 484090	**E-bost**	Jason.Liptrot@environment-agency.gov.uk

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

cylchlythyr

Gaeaf 2009-10

Pysgodfeydd Technegol

Yn cynnal ac yn gwella pysgodfeydd

Prif bynciau'r tri mis diwethaf:

- **Stocio merfogiaid yn Nyfrdwy**
- **Gwella ataliwr pysgod**
- **Arwyddion silio ar Gonwy**
- **Symud pysgod o safleoedd y fadfall gribog fawr**

Stocio merfogiaid yn Nyfrdwy
Yn rhan o raglen ail-stocio Dyfrdwy wedi achos difrifol o lygredd 10 mlynedd yn ôl, rhyddhawyd 5,000 merfog pedair modfedd yn Eccelston Ferry. Dyma'r stocio olaf mewn cyfres a welodd ryddhau 200 mil o bysgod afon bras. Mae nifer pysgod bras yr afon wedi cynyddu'n sylweddol.

Gwella ataliwr pysgod
Mae gwaith trin dŵr Huntington ger Caer yn tynnu peth wmbredd o ddŵr o Ddyfrdwy pob diwrnod. Dangosodd adroddiad APEM fod rhai pysgod ifainc yn cael eu sugno i mewn. Mae gwaith gwella effeithlonrwydd yr ataliwr yn dechrau'n ddiweddarach eleni, gan helpu lleihau colli pysgod.

Stocio merfogiaid yn Nyfrdwy

Arwydd ar Gonwy yn Ysbyty Ifan

Arwyddion silio ar Gonwy
Gosodwyd hysbysfyrddau 'Nabod Eich Afon' yn 12 man ar Gonwy, Llugwy a Lledr. Prif ddiben yr arwyddion yw rhoi gwybod fod eogiaid, brithyllod mudol a brithyllod afon yn silio ym mannau agored i niwed yn ystod y misoedd silio rhwng Hydref ac Ionawr.

Symud pysgod o safleoedd y fadfall gribog fawr
Symudwyd pysgod o nifer o safleoedd madfall gribog fawr dynodedig ledled gogledd Cymru, er mwyn i nifer y madfallod gynyddu. Wedi bwrw golwg ar iechyd y pysgod, fe'u cyfrennir i lynnoedd pysgota cymunedol.

Am fanylion pellach cysylltwch â:

Enw	**Julian Bray**	**Enw Swydd**	**Arweinydd y Tîm Pysgodfeydd Technegol**
Ffôn	**01248 484085**	**E-bost**	**Julian.Bray@environment-agency.gov.uk**

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

cylchlythyr

Gaeaf 2009-10

Pysgodfeydd Technegol

Yn cynnal ac yn gwella pysgodfeydd

Prif bynciau'r tri mis diwethaf:

- Ymweliad AS â Chýt y Rhyl
- Llyn Parc Gwaunyterfyn
- Llyswennod Llyn Maelog
- Newid ffin Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Ymweliad AS â Chýt y Rhyl
Ddechrau Chwefror cyfarfu Mr Chris Ruane, A.S., Mr David Edwell, Rheolwr A.A. Cymru, a Mr Eric Price o Uned Prif Gynlluniau Sir Ddinbych yn y Rhyl. Cafodd bawb yno'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y cynllun Pysgodfa a Man Glas hwn.

Llyn Parc Gwaunyterfyn
Yn dilyn ailsefydlu pysgodfa yn Llyn Parc Gwaunyterfyn, Wrecsam, ffurfiwyd clwb genweirio cymunedol. Mae hynny wedi arwain at fwriad ar ran yr Awdurdod Lleol i ddatblygu'r safle er mwyn gwella rhagor ar y llyn. Defnyddiwyd pysgod o safleoedd cadwraeth lleol i stocio rhagor ar y safe.

Ymweliad Chris Ruane AS â Chýt y Rhyl

Llyswennod Llyn Maelog

Llyswennod Llyn Maelog
Caewyd gollyngfa Llyn Maelog ym Môn am beth amser, gan rwystro ymfudiad llyswennod. Mynegodd swyddogion pysgodfeydd bryder ynglŷn â hyn i CB Ynys Môn, a gliriodd y rhwystr, gan hwyluso ymfudiad llyswennod a brithyllod mudol, hefyd.

Newid Ffin Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
O'r 1af o Ebrill ymlaen, bydd ffiniau newydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn newid o ddalgylchoedd afonydd i ffin wleidyddol Cymru a Lloegr. Yng ngogledd Cymru, golyga hyn mai ni fydd yn arwain Cynlluniau Gweithredu Eogiaid a Rheoli Llyswennod, a Rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr yn arwain rheoli pysgod bras. Bydd y ddwy ranbarth yn parhau i weithio'n agos a'i gilydd.

Am fanylion pellach cysylltwch â:

Enw	Julian Bray	**Enw Swydd**	Arweinydd y Tîm Pysgodfeydd Technegol
Ffôn	01248 484085	**E-bost**	Julian.Bray@environment-agency.gov.uk

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

cylchlythyr

Gaeaf 2009-10

Pysgodfeydd Technegol

Yn cynnal ac yn gwella pysgodfeydd

Prif bynciau'r tri mis diwethaf:

- **Afon Prysor - Glan Llafar**
- **Ymweliadau â Chlybiau Genweirio**
- **Cynefin Glaslyn**
- **Cymdeithas y Dall a Byddar**

Afon Prysor - Glan Llafar
Cwblhawyd cynllun cynefin ar Lafar, rhagnant Prysor. Dyma bedwerydd cynllun pysgodfeydd y dalgylch hwn, sy'n brin iawn o bariaid brithyllod. Bydd y cynllun yn cynnwys gosod malurion coed, cerrig mawrion a ffensio.

Ymweliadau â Chlybiau Genweirio
Yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf bu swyddogion Pysgodfeydd Technegol a Throseddu Amgylcheddol yn cyfarfod â sawl clwb genweirio ledled gogledd Cymru. Hynny er mwyn rhoi gwybod am drefnau newydd y timau, gwahodd sylwadau ynghylch pynciau sy'n peri pryder iddynt, neu drafod ymhle yr hoffent wella eu pysgodfeydd. Bu croeso da i'r cyfarfodydd.

Afon Prysor – Glan Llafar

Eogi Cynllun Cynefin Glaslyn

Cynefin Glaslyn
Trwsiwyd pedwar cynllun cynefin blaenau Glaslyn o dan y Cynllun Pysgodfeydd Cynaliadwy'n ddiweddar. Golygodd y gwaith osod 'giatiau rhyddion' a ffensys newydd yn lle rhai a ddifrodwyd gan lifoedd mawrion y gaeaf. Hyn er mwyn sicrhau amddiffyn y cynefin rhag da byw.

Cymdeithas y Dall a'r Byddar
Yn ddiweddar hyfforddwyd hyfforddwyr Cyfundeb Hyfforddwyr Genweirio Cymru i gyflwyno'r chwarae hwn i rai sy'n ddall ac yn fyddar. Dyma roi i'r rhai hynny sy'n aml wedi'u hynysu gan yr anfantais ddwbl hon gyfle i brofi genweirio.

Am fanylion pellach cysylltwch â:

Enw	Julian Bray	**Enw Swydd**	Arweinydd y Tîm Pysgodfeydd Technegol
Ffôn	01248 484085	**E-bost**	Julian.Bray@environment-agency.gov.uk

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

cylchlythyr

Gaeaf 2009-10

Magu Pysgod

Lliniaru difrod a wnaed i bysgodfeydd

Prif bynciau'r tri mis diwethaf:

- Clefyd y Rhefr Coch ymysg eogiaid aeddfed
- Adnewyddu uned ddeor deorfa Maerdy
- Chris Mills yn ymweld â deorfa Mawddach
- Deorfeydd yn rhoi 480,000 o wyau i gadw

Clefyd y Rhefr Coch ymysg eogiaid aeddfed
Ers 2006 gwelwyd dychwelyd nifer gynyddol o eogiaid â rhefrau chwyddedig, gwaedlyd. Achoswyd hyn gan nifer fawr o larfau'r nematod *Anisakis simplex* yng nghyffiniau'r rhefr, ac adwaith cysylltiedig yr eog lletyol. Fis Chwefror, samplodd Swyddogion Iechyd Pysgod o Brampton 12 bysgodyn o Fawddach a Dyfrdwy, a chanfuwyd rhwng 8 a 89 nematod yng nghyffiniau'r rhefr.



Anisakis simplex

Adnewyddu uned ddeor Maerdy
Adnewyddwyd yr hen uned ddeor 50 mlwydd oed ym Maerdy'n ddiweddar. Gosodwyd ugain cafn deor newydd, a all ddal 300,000 o wyau. Bydd y cafnau newydd yn darparu cyfleusterau bwydo cyntaf yn yr uned ddeor, a dylent sicrhau fod rhagor o eogiaid yn goroesi'r cyfnod wy / alfyn.

Cyhoeddi'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd

Ymweliad Chris Mills â Deorfa Mawddach
Yn Ionawr cyhoeddwyd y Cynllun Rheoli Basn Afon yn Neorfa Mawddach. Yr oedd Chris Mills, Cyfarwyddwr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, yno, ynghyd â chynrychiolwyr Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Dŵr Cymru ac Afonydd Cymru. Cafodd yr ymwelwyr gyfle i weld cregyn gleision perlog dŵr croyw, yn ogystal â wyau torgoch a sut mae microtagio.

Deorfeydd yn rhoi 480,000 o wyau i gadw
Ym Maerdy y tymor silio hwn rhoddwyd cyfanswm o 280,600 o wyau i gadw. Cafwyd stoc magu gan enweirwyr Dyfrdwy a thrapiau Celyn a Chaer. Mae deorfa Mawddach wedi rhoi agos 200,000 o wyau i gadw. Am y tro cyntaf, stripiwyd wyau torgochiaid o Lyn Padarn a dygwyd hwy i Fawddach.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw	Joel Rees-Jones	**Teitl Swydd**	Swyddog Magu Pysgod
Tel	07776 474308	**E-bost**	joel.rees-jones@environment-agency.gov.uk